Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

18 Ionawr 2021



Y Senedd a BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

18 Ionawr 2021


**Awduron:**
Lucy Valsamidis, Sara Moran a Rhun Davies


Y Senedd a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

Crynodeb o’r datblygiadau ..... 1

**2. Datblygiadau’r DU-UE ..... 3**

Gweithredu’r Cytundeb Ymadael ..... 3

**3. Datblygiadau yn y DU ..... 5**

Cytundeb rhwng y DU a’r UE ..... 5

Diwedd y cyfnod pontio ..... 5

Perthnasau rhynglywodraethol ..... 7

Fframweithiau Cyffredin ..... 7

Deddfwriaeth ..... 8

Negodiadau masnach ryngwladol ..... 9

**4. Datblygiadau yng Nghymru ..... 10**

Cytundeb rhwng y DU a’r UE ..... 10

Gweithredu deddfwriaeth ..... 10

Deddf Marchnad Fewnol y DU ..... 11

Diwedd y cyfnod pontio: ..... 11

Negodiadau masnach ryngwladol ..... 13

# 1. Cyflwyniad

## Crynodeb o'r datblygiadau

**Daeth y DU a'r UE** i gytundeb ynghylch eu perthynas yn y dyfodol ar 24 Rhagfyr ar ffurf tri chytundeb. Mae'r rhain yn darparu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE o 1 Ionawr. Mae'r cytundebau wedi'u cymhwyso dros dro tan 28 Chwefror 2021 tra bo cadarnhad yr UE ar y gweill. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau dros y misoedd nesaf. Cadarnhawyd y cytundeb gan Senedd y DU ar 30 Rhagfyr. Yn y cyfamser, mae'r broses o weithredu'r Cytundeb Ymadael yn parhau, a chafwyd cynnydd o ran hawliau dinasyddion a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

**Ar lefel y DU,** pasiodd Senedd y DU y Bil Perthynas yn y Dyfodol a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddo mewn un diwrnod. Yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr, ar gyfartaledd, ceisiodd 1584 o loriau y dydd groesi'r ffin rhwng Prydain Fawr a'r UE, o'i gymharu â chyfartaledd o 4067 ar yr un adeg y llynedd. Y disgwyl oedd y byddai'r traffig yn cynyddu yn ddiweddarach yn y mis. Adroddodd rhai busnesau am aflonyddwch i draffig rhwng Prydain Fawr a'r UE, gan gynnwys o ran nwyddau darfodus. Adroddwyd hefyd am aflonyddwch i fasnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Daeth cytundebau parhad masnach newydd i rym, ond roedd negodiadau yn parhau i fynd rhagddynt gyda chwe gwlad. Cytunwyd dros dro ar oddeutu 20 o fframweithiau cyffredin ar gyfer rheoli gwahaniaethau ychydig cyn diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu cwblhau'r Adolygiad o Berthnasau Rhynglywodraethol cyn gynted â phosibl. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf y Farchnad Fewnol a pharhaodd y Bil Masnach a Bil yr Amgylchedd i fynd drwy Senedd y DU.

**Yng Nghymru,** cafodd y Senedd ei hadalw ar 30 Rhagfyr i drafod y cytundeb rhwng y DU a'r UE. Croesawodd Prif Weinidog Cymru y cytundeb ar y fargen fel 'sylfaen i adeiladu arni'. Galwodd Llywodraeth Cymru am gymorth i helpu busnesau i leddfu effaith diwedd y cyfnod pontio ac i ganiatáu i'r llywodraethau datganoledig allu cyfrannu at lywodraethu Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE. Roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi dadansoddiad o'r cytundeb a'i oblygiadau i Gymru erbyn hanner tymor mis Chwefror. Cadarnhaodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd fod cynlluniau wrth gefn wedi cael eu rhoi ar waith ym Mhorthladd Caergybi. Dywedodd fod y lefelau traffig yn is na'r disgwyl ar gyfer yr adeg honno o'r flwyddyn. Cafodd tua 20-25 y cant o gerbydau cludo

nwyddau eu gwrthod, ond roedd y rhan fwyaf o'r rheini dal wedi gallu cwblhau eu teithiau yn ôl y bwriad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau hefyd i lansio her gyfreithiol i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

# 2. Datblygiadau'r DU-UE

Ar 24 Rhagfyr, daeth yr UE a'r DU i gytundeb ar **Gytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA)** a fydd yn llywodraethu eu perthynas yn y dyfodol. Daeth y ddwy ochr i gytundeb hefyd ar **gytundeb Diogelwch Gwybodaeth**. Daeth y DU ac Euratom i **gytundeb ar wahân ar Gydweithredu Niwclear**. Mae'r **UE** a'r **DU** wedi cyhoeddi dogfennau cryno o'r darpariaethau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y TCA a chytundebau eraill (y cyfeirir atynt ar y cyd fel 'TCA' isod).

Nid yw'r cytundebau wedi'u cadarnhau eto ar ochr yr UE gan Senedd Ewrop. Fodd bynnag, ar 28 Rhagfyr, **cytunodd y Cyngor Ewropeaidd** y gallai'r TCA ddod i rym dros dro tan 28 Chwefror 2021 i roi amser i Senedd Ewrop ystyried a phleidleisio ar y cytundebau.

Ar 28 Rhagfyr, **dywedodd Senedd Ewrop** ei bod yn ymgynghori â'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn ag ymestyn y cyfnod ymgeisio dros dro i fis Mawrth, er mwyn galluogi'r Senedd i bleidleisio ar y cytundeb yn ystod ei chyfarfod llawn ym mis Mawrth. Nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

Ar 11 ac 14 Ionawr, dechreuodd Pwyllgor Masnach Ryngwladol a Phwyllgor Materion Tramor Senedd Ewrop **eu gwaith craffu ffurfiol** ar y TCA. Bydd y pwyllgorau hyn yn gwneud argymhelliad ar sail eu hadroddiadau o ran a ddylai'r Senedd gadarnhau'r TCA ai peidio.

Ar ochr y DU, cyflwynodd Llywodraeth y DU **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020** i gadarnhau'r TCA. Mae Adran 36 o'r Ddeddf yn datgymhwyso'r proses Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 (CRaG) a ddefnyddir i gadarnhau'r rhan fwyaf o gytuniadau'r DU. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 30 Rhagfyr 2020 (gweler adran 3.1 am ragor o wybodaeth).

## Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

### Cyfarfod y Cyd-bwyllgor

Cynhaliwyd **pumed cyfarfod** y Cyd-bwyllgor ar 18 Rhagfyr, lle trafododd y DU a'r UE y broses o weithredu'r Cytundeb Ymadael. Roedd y cyfarfod yn gyfle i ystyried cyfarfodydd y Pwyllgorau Arbenigol, hawliau dinasyddion a Phrotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Aeth y Cyd-bwyllgor ati hefyd i fabwysiadu nifer o benderfyniadau yn ymwneud â:

- phennu dyddiadau o ran pryd y bydd rhai darpariaethau o'r Cytundeb Ymadael yn berthnasol i ddinasyddion Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir;
- Protocol Gogledd Iwerddon, gan gynnwys diwygiad a phenderfyniad ynghylch pa nwyddau yr ystyrir 'nad ydynt mewn perygl'.

Cymeradwyodd yr UE a'r DU hefyd restr o 25 o bobl a allai wasanaethu ar y panel cymrodeddu, a sefydlwyd o dan Erthygl 171 o'r Cytundeb Ymadael, a gwnaethant gyfres o ddatganiadau unochrog ynghylch gweithdrefnau ar gyfer Gogledd Iwerddon, megis cymhwyso cyfraith yr UE fel y mae'n berthnasol i gynhyrchion meddygol. Yn olaf, cymeradwyodd a chytunodd y Cyd-bwyllgor i gyhoeddi ail argraffiad yr Adroddiad ar y Cyd ar Hawliau Preswylio, a baratowyd gan y Pwyllgor Arbenigol ar Hawliau Dinasyddion (gweler isod).

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Arbenigol

Cyhoeddodd y Pwyllgor Arbenigol ar Hawliau Dinasyddion ei ail **adroddiad ar y Cyd ar Hawliau Preswylio** ar 15 Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd cynlluniau preswylio pob un o Aelod-wladwriaethau'r UE a'r DU.

# 3. Datblygiadau yn y DU

## Cytundeb rhwng y DU a'r UE

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 ar 29 Rhagfyr 2020. Cafodd ei roi ar y trywydd cyflym drwy Senedd y DU a daeth yn **Ddeddf y Berthynas yn y Dyfodol** ar 30 Rhagfyr 2020.

Prif ddiben y Ddeddf yw gweithredu'r TCA a'i gytundebau cysylltiedig, a darparu fframwaith ar gyfer gweithredu'r trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb yn y dyfodol.

Mae Deddf y Berthynas yn y Dyfodol yn cynnwys pwerau dirprwyedig at ddibenion gweithredu'r TCA a chytundebau cysylltiedig, gan gynnwys i Weinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig (adrannau 31-33). Mae Adran 29 o Ddeddf y Berthynas yn y Dyfodol yn darparu y bydd cyfraith ddomestig yn cael effaith gyda'r addasiadau sy'n ofynnol i weithredu'r TCA.

Cyhoeddodd **Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y Berthynas yn y Dyfodol** adroddiad ynglŷn â'r cytundeb ar 30 Rhagfyr, gan argymell y dylid cynnal gwaith craffu parhaus. Clywodd y Pwyllgor **dystiolaeth lafar** ar y cytundeb gan arbenigwyr ar 6 Ionawr. Daw'r Rheol Sefydlog dros dro sy'n sefydlu'r Pwyllgor ar y Berthynas yn y Dyfodol i ben ar 16 Ionawr.

## Diwedd y cyfnod pontio

### Masnach rhwng Prydain Fawr a'r UE

O 1 Ionawr, bydd masnach rhwng Prydain Fawr a'r UE yn digwydd o dan delerau'r TCA. Mae'r UE wedi cyflwyno rheolaethau llawn ar y ffin, a bydd y DU yn cyflwyno gwiriadau rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2021.

Ar 31 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU iteriad wedi'i ddiweddaru o'r **Model Gweithredu Ffiniau** er mwyn adlewyrchu telerau'r TCA. Ochr yn ochr â'r Model Gweithredu Ffiniau, cyhoeddwyd **dogfen astudiaethau achos** hefyd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu senarios o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer masnach rhwng Prydain Fawr a'r UE o dan delerau'r cytundeb ar y berthynas yn y dyfodol.

Ers diwedd y cyfnod pontio, mae nifer y lorïau sy'n teithio rhwng y DU a'r UE wedi bod yn isel. **Yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr**, roedd 1584 o lorïau y dydd ar

gyfartaledd yn ceisio croesi'r ffin, o'i gymharu â chyfartaledd o 4067 ar yr un adeg y llynedd. Mae'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd wedi amcangyfrif bod oddeutu un o bob pum lori yn cael eu gwrthod. Fodd bynnag, disgwylir i lefel y traffig cerbydau nwyddau trwm gynyddu dros yr wythnosau nesaf a dychwelyd i'w lefelau busnes arferol ar gyfer yr adeg hon y llynedd. Erbyn diwedd mis Ionawr, mae Llywodraeth y DU yn disgwyl y bydd tua 40,000 o lorïau yn mynd i Ffrainc bob wythnos. Mae'r sefyllfa mewn porthladdoedd yng Nghymru yn cael ei thrafod yn fanylach yn adran 4.4 isod.

Adroddwyd am rywfaint o aflonyddwch i fusnes. Er enghraifft, mae rhai manwerthwyr yn y DU, gan gynnwys **John Lewis** , wedi atal danfoniadau rhyngwladol. Cyhoeddodd **cwmni parseli DPD** ei fod yn atal danfoniadau dros dro i'r UE, ac mae'r **cwmni logisteg DB Schenker** wedi atal danfoniadau i'r DU yn ôl pob sôn. Adroddodd rhai busnesau sy'n gwerthu nwyddau darfodus i'r UE gan gynnwys **pysgod a physgod cregyn** am oedi ac aflonyddwch.

Cymerodd **Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin dystiolaeth** ar effaith diwedd y cyfnod pontio ar fusnes a'r economi gan randdeiliaid gwasanaethau ariannol a logisteg ar 11 Ionawr.

## Masnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Daeth Protocol Gogledd Iwerddon ac Iwerddon yn y Cytundeb Ymadael i rym hefyd ar ddiwedd y cyfnod pontio. Roedd hyn yn dilyn **cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r UE** ar weithredu'r Protocol ym mis Rhagfyr 2020 (gweler adran 2.1).

Adroddwyd am aflonyddwch i gadwyni cyflenwi wrth i'r Protocol gael ei weithredu. Ar 13 Ionawr, adroddodd **Politico** fod chwe chadwyn archfarchnad wedi ysgrifennu at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i rybuddio y gallai cadwyni cyflenwi ddod yn 'anweithredadwy' ar ôl i'r cyfnod oedi o dri mis ar gyfer cydymffurfiaeth lawn ddod i ben ar 1 Ebrill. Adroddwyd bod Marks and Spencer wedi tynnu o leiaf 380 o gynhyrchion yn ôl rhag eu gwerthu yng Ngogledd Iwerddon, a dywedwyd bod Sainsbury's wedi disodli tua 300 o gynhyrchion gyda chynhyrchion gan gyflenwr gwahanol dros dro.

Yn San Steffan, cymerodd **Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon dystiolaeth** ar 6 Ionawr ynghylch effaith y Protocol gan Logistics UK, Consortiwm Manwerthu Gogledd Iwerddon ac Undeb Ffermwyr Ulster.

## Perthnasau rhynglywodraethol

Cyfarfu **Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewrop)** ar 29 Rhagfyr yn dilyn cytundeb TCA y DU-UE. Mewn datganiad, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ei fod wedi galw am sicrhau bod y llywodraethau datganoledig yn cael eu cynrychioli yn strwythurau llywodraethu'r cytundeb ac am gymorth ariannol gan Lywodraeth y DU i helpu busnesau i ymdopi â'r cyfnod pontio.

Gofynnodd y Pwyllgor MADY i'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd am berthnasau rhynglywodraethol ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar 11 Ionawr, gan gynnwys mewnbwn gan y llywodraethau datganoledig i'r strwythurau llywodraethu yn TCA y DU-UE. Dywedodd **y Gweinidog**

> Dŷn ni ddim eto wedi cael sicrwydd o beth yn union fyddwn yn gallu ei wneud i gael dylanwad yn y trefniadau hynny, ond wrth gwrs, o'n safbwynt ni fel Llywodraeth, mae angen bod trefniadau ar waith i sicrhau hynny. Mae hynny'n rhan o'r gwaith rŷn ni wedi bod yn ei wneud yn yr adolygiad o berthnasau rhynglywodraethol. Mae angen mapio beth rŷn ni'n gweld yn y cytundeb ar y gwaith hynny oedd yn digwydd beth bynnag, a sicrhau ein bod ni'n cael ein llais yn y trefniadau hynny, wrth gwrs.

Mewn llythyr at Bwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin ar 23 Rhagfyr, **dywedodd Chloe Smith AS, Gweinidog Cyfansoddiad a Datganoli'r DU** fod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn 'agos at sicrhau ateb y mae pawb yn gytûn arno' i'r **Adolygiad o Berthnasau Rhynglywodraethol**. Nododd fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cwblhau'r adolygiad 'cyn gynted â phosibl' a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r **Adolygiad Dunlop o Alluogrwydd Undeb Llywodraeth y DU.**

## Fframweithiau Cyffredin

Rhoddodd **y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ddiweddariad i'r Pwyllgor MADY** ynghylch cynnydd y rhaglen fframweithiau cyffredin ar 11 Ionawr.

Dywedodd ei fod wedi cytuno dros dro i 20 fframwaith ychydig cyn diwedd y cyfnod pontio ar ran Llywodraeth Cymru a'i fod yn disgwyl i'r fframweithiau hynny fod yn barod i graffu arnynt ar ôl sicrhau cytundeb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Nid oedd tri i bedwar fframwaith yn barod i graffu arnynt eto ac roedd y fframweithiau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau a chydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau yn destun oedi.

Nododd y Gweinidog fod cynlluniau ar gyfer datblygu fframweithiau cyffredin yn y dyfodol yn dal i gael eu trafod.

> [T]here is now the [UK-EU] agreement, there's the Northern Ireland protocol, there's the internal market Act and the future relationship agreement itself. So, there's a range of ways in which we now need to apply a set of lenses to those frameworks in the coming year. The work plan for doing that obviously is, as it were, still under discussion between officials and the four Governments, not least given that at least two of those elements have only just come into play really, but we will communicate to the committee the planned timetable as soon as we have it.

Cyhoeddodd **Llywodraeth y DU** ei nawfed adroddiad statudol ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a'r fframweithiau cyffredin, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 26 Mehefin a 25 Medi 2020.

## Deddfwriaeth

### Deddfwriaeth newydd a weithredwyd

Cafodd **Deddf Marchnad Fewnol y DU** Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr. **Mae ein herthygl yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i'r Bil** yn ystod cyfnodau Tŷ'r Arglwyddi a ping pong.

Gan na roddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Masnach erbyn diwedd y cyfnod pontio, cyflwynodd Llywodraeth y DU fesurau rhannu data o Ran 3 o'r **Bil mewn Bil Masnach (Datgelu Gwybodaeth)** newydd. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil hwn ar 17 Rhagfyr.

Daeth y **Ddeddf Cyfraith Ryngwladol Breifat (Gweithredu Cytundebau)** yn gyfraith ar 14 Rhagfyr.

### Mae ystyriaeth Seneddol yn parhau.

Cwblhaodd **y Bil Masnach** ei gyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Ionawr. Bydd trydydd darlleniad yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr. Diwygiwyd y Bil gan Lywodraeth y DU i ddarparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Masnach ac Amaeth newydd i gynghori Gweinidogion y DU ynghylch cadarnhau cytundebau masnach rydd yn y dyfodol (Rhan 3). Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi hefyd yn erbyn y Llywodraeth i wneud diwygiadau, gan gynnwys creu gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod amcanion negodi drafft gerbron Senedd y DU, a sefydlu cod ymarfer yn nodi sut y dylai Gweinidogion gynnal safonau a sefydlwyd yn y gyfraith ar faterion gan gynnwys bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

Gosododd Llywodraeth Cymru **drydydd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Cafodd c**ynnig cydsyniad deddfwriaethol** ei gymeradwyo gan Senedd Cymru ar 12 Ionawr.

Cwblhaodd Bil yr Amgylchedd ei gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin cyn diwedd y cyfnod pontio. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd wedi ei gyhoeddi eto. Cymeradwyodd **Pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin** benodiad y Fonesig Glenys Stacey yn Gadeirydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Bydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn goruchwylio'r gyfraith amgylcheddol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a ledled y DU gyfan ar gyfer materion a gedwir yn ôl. Mae **Llywodraeth Cymru wedi nodi** ei bod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn y Chweched Senedd.

Dechreuodd **y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol** ei gyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Ionawr. Cwblhaodd **y Bil Gwasanaethau Ariannol** ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Ionawr ac mae bellach yn mynd drwy Dŷ'r Arglwyddi.

## Negodiadau masnach ryngwladol

Ar 1 Ionawr 2021, nid yw cytundebau masnach yr UE yn berthnasol i'r DU mwyach. Bydd cytundebau newydd y mae Llywodraeth y DU wedi'u negodi i atgynhyrchu effeithiau'r cytundebau hyn wedi dechrau dod i rym.

Mae gwefan Llywodraeth y DU yn dangos y **cynnydd a wnaed wrth barhau â'r cytundebau UE hyn** gan gynnwys y mecanweithiau effaith at fynediad ar gyfer y cytundebau a negodwyd.

Mae'r negodiadau'n parhau o hyd gyda 6 gwlad: Albania, Algeria, Bosnia a Herzegovina, Ghana, Montenegro a Serbia. Yn **2019**, cyfanswm y fasnach ddwyochrog adnabyddadwy mewn nwyddau rhwng Cymru a'r gwledydd hyn oedd £527.5 miliwn, a oedd yn cynnwys gwerth allforion o £12.7 miliwn a gwerth mewnforion o £514.8 miliwn.

Nid yw rhai o'r cytundebau wedi dod i rym yn llawn eto, felly mae mecanweithiau pontio wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau rhywfaint o barhad o ran masnach. Er enghraifft, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y DU a Chanada, a fydd yn cynnal masnach heb dariffau nes bod y cytundeb wedi'i gadarnhau'n llawn. Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cwmpasu masnach mewn gwasanaethau.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## Cytundeb rhwng y DU a'r UE

Cafodd y Senedd ei hadalw ar 30 Rhagfyr i gynnal dadl ynghylch diwedd y cyfnod pontio. Mewn datganiad, **dywedodd Prif Weinidog Cymru** y byddai'r fargen yn 'gwneud masnach gyda'n marchnad fwyaf a phwysicaf yn ddrytach ac yn anoddach', gydag effaith negyddol ar fusnesau, dinasyddion a phobl ifanc.

Cynigiodd Llywodraeth Cymru gynnig i edifar nad oedd Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE yn bodloni dyheadau'r Senedd ac yn galw ar Lywodraeth y DU i weithio gyda Llywodraeth y DU i liniaru aflonyddwch. **Derbyniwyd y cynnig** o 28 o bleidleisiau yn erbyn 24.

Rhoddodd **y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** dystiolaeth i'r Pwyllgor MADY ynglŷn â'r cytundeb ar 11 Ionawr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r cytundeb a'i oblygiadau i economi Cymru. Roedd yn gobeithio y byddai'r dadansoddiad yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr a'i gyhoeddi erbyn hanner tymor mis Chwefror.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r cytundeb yn ôl ei blaenoriaethau negodi. Nododd y Gweinidog ei fod yn croesawu dileu tariffau a chwotâu; darpariaethau gofal iechyd cilyddol a lles cymdeithasol; a'r ymrwymiad i beidio ag atchwelyd o ran safonau. Fodd bynnag, mynegodd bryderon ynghylch rhwystrau nad ydynt yn dariffau a chymhlethdod y rheolau o ran tarddiad; diffyg cydnabyddiaeth gilyddol o ran asesiadau cydymffurfio; colli mynediad at gronfa ddata cemegau REACH yr UE; colli cydnabyddiaeth gilyddol o gymwysterau; a chydweithrediad diogelwch.

## Gweithredu deddfwriaeth

Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Perthynas yn y Dyfodol oherwydd cafodd ei ddarparu ar fyr rybudd.

Holodd y Pwyllgor MADY y Gweinidog Pontio Ewropeaidd am y Ddeddf ar 11 Ionawr. Dywedodd **y Gweinidog** nad oedd angen dybryd am is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf. Dywedodd:

> That's partly by virtue of the operation of section 29 in the Act, which is a—what's the best way of putting this—an omnibus provision, I

> suppose would be the benign way of describing it, which effectively requires all domestic law to be interpreted in compliance or in conformity, rather, with the provisions of the agreement. That's highly unsatisfactory, obviously, for reasons that we will all be conscious of. But the one benefit of it is that it removes the immediate need for a whole raft of secondary legislation.

Dywedodd y Gweinidog y byddai 'mwy na thebyg yn rhagweld defnyddio rhywbeth fel mecanwaith Rheol Sefydlog 30 i hysbysu'r Senedd' o Weinidogion y DU sy'n gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf gyda chydsyniad Llywodraeth Cymru, ond bod hyn yn 'ddarlun sy'n esblygu'.

## Deddf Marchnad Fewnol y DU

Ar 16 Rhagfyr, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd **ddatganiad** yn dweud os caiff y Bil ei ddeddfu heb ddiwygiad pellach, y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio declarasiwn gan y Llys Gweinyddol i gadarnhau:

> na ellir yn gyfreithlon dorri ar gwmpas deddfwriaeth gyfansoddiadol fel hyn ac na ellir dehongli'r Ddeddf a ddaw o ganlyniad fel ei bod yn cael yr effaith honno.

Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor MADY ar 11 Ionawr **dywedodd y Gweinidog:**

> The UK Government responded to the letter that I sent—I couldn't promise you the date of it, but certainly, in the latter half of last week. So, that is being looked at now by Welsh Government lawyers, to take full account of the UK Government's response. I probably shouldn't speculate on what will happen next. But, having read the letter myself, I was, shall we say, left with many unanswered questions. So, I will expect to make an announcement to the Senedd about our next steps, so that the Senedd is kept informed of that, and to do that, I hope, in reasonably short order.

## Diwedd y cyfnod pontio:

Mae Ymchwil y Senedd wedi casglu **ffynonellau cymorth a gwybodaeth** i helpu busnesau a dinasyddion yng Nghymru i ddeall diwedd y cyfnod pontio.

### Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer porthladdoedd a ffiniau

Ar 7 Rhagfyr, **nododd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau wrth gefn** ar gyfer aflonyddwch posibl ym Mhorthladd Caergybi i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Nod y cynllun oedd lliniaru effaith bosibl oedi i gludwyr sy'n teithio i Iwerddon pan fydd yr UE yn rhoi'r rheolaethau ffin newydd ar waith ar gyfer traffig

y DU ar 1 Ionawr 2021. Roedd yn nodi 4 mesur a fyddai'n cael eu cyflwyno i darfu cyn lleied â phosibl, gan gynnwys gwrthlif dros dro ar yr A55 a chreu safle stacio ym Mharc Cybi.

Cadarnhaodd **datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ionawr** fod y cynlluniau wrth gefn ar waith. Disgwylid y byddai dyddiau cyntaf mis Ionawr yn dawel yn y porthladd, gyda'r traffig yn cynyddu'n ddiweddarach.

## Gweithredu

Gofynnodd y Pwyllgor MADY i'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd am y sefyllfa ym mhorthladdoedd Cymru ar 11 Ionawr. Dywedodd y Gweinidog fod y traffig yng Nghaergybi yn is na'r disgwyl ar gyfer mis Ionawr ac nad oedd y trefniadau stacio ar gyfer rheoli traffig yng Nghaergybi wedi cael eu defnyddio hyd yn hyn. **Dywedodd:**

> [a]bout 20 per cent or 25 per cent of those businesses are being turned away. As it happens, the vast majority of people are being sorted out in a very short space of time—probably 30 minutes or so—and most of them are able to pick up on their original booking, if you like.

Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> [S]ome of the hauliers being turned around, as it were, turned away to return, are large companies with sophisticated regulation and audit arrangements and compliance arrangements [...] we're obviously concerned about that.

Ar 9 Ionawr, dywedodd **Llywodraeth Iwerddon** fod lefelau'r llwythi wedi bod yn is na'r disgwyl, ond bod y rhain yn 'dechrau cynyddu'. Cyhoeddodd hawddfreintiau dros dro i rai gofynion tollau.

**Adroddodd North Wales Live** ar 7 Ionawr fod Stena Line wedi gweld gostyngiad o 70 y cant mewn masnach cludo nwyddau ar lwybrau rhwng Cymru ac Iwerddon a'i fod wedi canslo rhai hwyliadau rhwng Caergybi a Dulyn ac Abergwaun a Rosslare.

## Parodrwydd ar gyfer y dyfodol

Bydd Llywodraeth y DU yn **cyflwyno gwiriadau** ar fewnforion nwyddau sy'n cyrraedd Prydain Fawr o'r UE rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf eleni.

Mae angen seilwaith ffiniau mewndirol newydd yng Nghymru er mwyn cwblhau trefniadau tollau newydd a ffurfioldebau eraill ar y ffin. Llywodraeth y DU sy'n

arwain y gwaith o ddatblygu safle mewndirol ger Caergybi, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu safle yn ne-orllewin Cymru. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 11 Ionawr, **dywedodd y Gweinidog** y bydd angen dau safle yn awr, yn lle un. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu ei bod yn 'annhebygol iawn' y byddai'r seilwaith yn barod erbyn mis Gorffennaf.

### Effaith a lliniaru

Gofynnodd y Pwyllgor MADY i'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd am effaith diwedd y cyfnod pontio ar fusnesau yng Nghymru. **Mynegodd y Gweinidog** bryderon am yr effaith ar fusnes, a dywedodd:

> [T]here will need to be, I think, a UK-wide intervention to support the economy in that period. Obviously, plainly, we are not simply dealing with the impact of transition, are we? We're also dealing at the same time with the impact of COVID. So, I think there needs to be a UK-wide intervention to support businesses through what is going to be quite a difficult period.

## Negodiadau masnach ryngwladol

**Cyhoeddodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ddatganiad** ar gynnydd Llywodraeth y DU o ran negodiadau parhad masnach ar 11 Ionawr. Mae'r datganiad yn nodi, o'r 12.5 y cant o fasnach nwyddau Cymru a oedd yn cael mynediad at delerau ffafriol ar gyfer masnach nad yw'n ymwneud â'r UE cyn diwedd y cyfnod pontio, bellach mae 11 y cant wedi'i chwmpasu gan y cytundebau parhad.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **dadansoddiad o'r cytundeb masnach rhwng y DU a Japan** a'i effaith ar economi Cymru ar 10 Rhagfyr.